## Swyddog Arweiniol Safonau Masnach

Fel swyddog arweiniol, byddwch yn rheoli tîm dynamig sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau Safonau Masnach craidd ar draws Sir Benfro, ac eithrio safonau bwyd ac iechyd / llesiant anifeiliaid (a reolir ar wahân). Mae'r rôl hon yn gofyn am arweinyddiaeth eithriadol a throsolwg strategol. Byddwch yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu gweithredu'n effeithiol, yn datblygu gwybodaeth broffesiynol arbenigol, ac yn ysgogi cydymffurfedd er mwyn diogelu'r gymuned.

## Uwch-swyddog Safonau Masnach (Cydymffurfedd Busnes)

Mae'r uwch rôl hon yn canolbwyntio ar y portffolio cydymffurfio busnes, gan gwmpasu meysydd fel mesureg, diogelwch cynnyrch, gwerthu ceir ail law, gwerthu i rai dan oed, tybaco anghyfreithlon, troseddau eiddo deallusol, a ffugio. Gan gyfuno arbenigedd technegol ag arweinyddiaeth, byddwch yn cael y cyfle i lunio arferion cydymffurfio busnes tra'n cyfrannu at ddiogelu defnyddwyr a masnachu teg o fewn y rhanbarth.

## Arolygydd Masnachu Teg /Swyddog Safonau Masnach

Yn dibynnu ar ba gangen o'r Tîm rydych chi'n arbenigo yn eich rôl, efallai y bydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch cynnyrch, gwerthu ceir ail-law, tybaco a vapes anghyfreithlon, gwerthu dan oed, ffugio a throseddau eiddo deallusol, neu ddiogelu rhag sgamiau, troseddau carreg drws, gweithredoedd Deddf Menter, telerau annheg, twristiaeth, asiantaethau tai a gosod tai a sicrhau cydymffurfiaeth mewn meysydd fel e-fasnach, cyfraith defnyddwyr a chontractau.  Bydd Swyddogion Safonau Masnach hefyd yn gyfrifol am fesureg.  Gan weithio'n agos gyda busnesau a'r gymuned, byddwch yn helpu i hyrwyddo arferion teg a chynnal hawliau defnyddwyr.

### Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i gefnogi ei gyflogeion ac mae'n cynnig ystod gynhwysfawr o fuddion, gan gynnwys:

- Cyflog cystadleuol a **'Thaliad Porth'** ychwanegol
- Hawl gwyliau blynyddol hael
- Aelodaeth mewn cynllun pensiwn llywodraeth leol rhagorol

**Lleoliad:** Mae pob rôl wedi'i lleoli yn Sir Benfro, gan gynnig ansawdd bywyd gwych yn un o ranbarthau prydferthaf y DU.

Os ydych chi'n frwd dros ddiogelu'r cyhoedd ac eisiau datblygu'ch gyrfa mewn safonau masnach, rydym yn eich annog i wneud cais a dod yn rhan o'n tîm ymroddedig.

**Gwneud cais:**
I gael rhagor o fanylion am bob rôl ac i gyflwyno'ch cais, ewch i [Swyddi a Gyrfaoedd - Cyngor Sir Benfro]

**Dyddiad Cau:** 24/03/2025

Gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau.